Community Housing Cymru

# Cyllideb Wanwyn y DU 2024

## Cyflwyniad

Mae'n debyg mai datganiad cyllidol 6 Mawrth fydd yr un olaf cyn yr etholiad cyffredinol.

Roedd gan y gyllideb hon ffocws cryf ar ddyled gan amlinellu cynlluniau i ostwng benthyca'r sector cyhoeddus. Mae'r OBR yn rhagweld y bydd dyled yn gostwng i 94.3% o GDP erbyn 2028-29. Amlinellodd y Cyngor gynlluniau San Steffan ar gyfer twf economaidd hirdymor drwy gyfuniad o drethi is, mwy o fuddsoddiad a gwell gwasanaethau cyhoeddus.

Rhoddodd y Canghellor, Jeremy Hunt, ddiweddariad ar chwyddiant. Dywedodd fod y ffigurau diweddaraf yn dangos 4%, a rhagwelir y bydd hynny'n gostwng i dan 2% o fewn misoedd, flwyddyn ynghynt na'r disgwyl.

Mae'r papur gwybodaeth hwn yn rhoi rhai o'r prif benawdau ar faterion sydd yn neilltuol o berthnasol i gymdeithasau tai a'u tenantiaid. Disgwylir ymateb Llywodraeth Cymru i balisau a ddatganolwyd i Gymru.

## Cyhoeddiadau allweddol ar gyfer Cymru

- Cyhoeddwyd £170m ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn cyllid canlyniadol. Rhagwelir mwy o fanylion ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r cyllid hwn.
- Disgwylir y cyhoeddir pedwar parth buddsoddi yn yr Alban a Chymru yn ddiweddarach eleni. Cafodd cyfnod y rhaglen ei ymestyn o bump i ddeng mlynedd.
- Datgelwyd buddsoddiad rhanbarthol yng ngogledd Cymru drwy nifer o wahanol brosiectau (mwy o fanylion isod).
- Cynlluniau i'w gwneud yn ofynnol i gynlluniau pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru ddatgelu'n gyhoeddus ddadansoddiad o'u dyraniad asedau.

## Cyhoeddiadau am dai yn Lloegr

Rhaglen tai fforddiadwy Lloegr
Caiff deddfwriaeth ei ddiweddaru i sicrhau nad yw darparwyr tai cymdeithasol sydd wedi cofrestru yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gorfod talu treth stamp wrth brynu eiddo gyda chymhorthdal cyhoeddus.

Bydd gan awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd ar dderbyniadau Hawl i Brynu. Cynyddir y gyfran y gellir ei roi tuag at gost cartrefi i gymryd eu lle o 40% i 50%.

Cyhoeddodd y Llywodraeth fuddsoddiad o £20 miliwn mewn cronfa cyllid cymdeithasol i gefnogi datblygiad cynlluniau tai cymunedol dros ddeg mlynedd.

Bydd £240m i adeiladu bron 8,000 o gartrefi yn Canary Wharf a Barking Riverside.

Cronfa cymorth tai
Mae'r Gronfa Cymorth Tai wedi derbyn estyniad o £500m, sy'n galluogi cynghorau lleol Lloegr i gefnogi teuluoedd drwy fanciau bwyd, mannau cynnes a thalebau bwyd tu hwnt i 31 Mawrth am 6 mis pellach.

Cynllunio
Cyhoeddodd y Llywodraeth £3m ar gyfer capasiti ac adnoddau cynllunio yn y cyfnod adolygu gwariant nesaf. Fel rhan o gynlluniau ehangach i wella effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus, datgelodd y Llywodraeth gynlluniau i ostwng pwysau ar adrannau cynllunio drwy ddefnyddio datrysiadau deallusrwydd artiffisial. Gobeithir y bydd y buddsoddiad hwn yn symleiddio'r broses o greu prosesau datblygu cynlluniau lleol ac yn gostwng faint o amser a gymerir i gynhyrchu cynlluniau o saith mlynedd i 30 mis.

Roedd y gyllideb yn cynnwys cynlluniau i lansio cylch 2 y Gronfa Lliniaru Maeth Lleol, fydd yn cefnogi cyflenwi 30,000 o gartrefi erbyn 2030, fyddai fel arall wedi'u hoedi oherwydd lefelau uchel o lygredd maethion.

# Treth a budd-daliadau

Perchnogaeth cartrefi
Cyhoeddodd y Canghellor newidiadau i amrywiaeth o drethi perchnogaeth cartref.

Bydd cymorth anheddau lluosog, cymorth treth stamp ar gyfer pobl sy'n prynu mwy nag un annedd mewn un trafodiad, yn cael ei ddileu o fis Mehefin.

Caiff cyfradd uwch Treth Enillion Cyfalaf ar gyfer gwerthu eiddo preswyl ei dorri o 28% i 24% mewn ymgais i annog perchnogion ail gartrefi i werthu eu heiddo.

Bydd y system gosodiadau gwyliau gyda chelfi yn cael ei ddiddymu o fis Ebrill 2025. Y nod yw dileu'r fantais treth i landlordiaid sy'n gosod eiddo gwyliau tymor byr gyda chelfi dros y rhai sy'n gosod eiddo preswyl i denantiaid tymor hirach. Cyhoeddir deddfwriaeth ddrafft maes o law.

Treth
Caiff Yswiriant Gwladol ei dorri gan 2c ychwanegol. Cyfunir hyn gyda thoriad o 2c mewn Yswiriant Gwaedol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, a allai arbed £450 y flwyddyn i weithwyr ar gyfartaledd.

Bydd y Llywodraeth yn dod â'r system dreth bresennol ar gyfer 'non-doms' y Deyrnas Unedig i ben. Dan y system newydd bydd unrhyw un a fu yn breswylydd treth yn y DU am fwy na phedair blynedd yn talu treth y DU ar eu hincwm a'u henillion tramor.

Budd-dal plant
Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar y tâl budd-dal plant incwm uchel yn seiliedig ar incwm aelwyd yn hytrach nag un cyflog o fis Ebrill 2026. O fis Ebrill eleni, caiff y trothwy incwm uchel ei godi o £50,000 i £60,000, a chynyddu'r tapr uchaf i gyflog blynyddol o £80,000.

# Cefnogi Aelwydydd

Blaen-fenthyciadau Credyd Cynhwysol
Bydd y cyfnod ad-dalu ar gyfer blaen-fenthyciadau newydd Credyd Cynhwysol yn cynyddu o 12 i 24 mis.

Gorchmynion cymorth dyled
Caiff y tâl o £90 am orchmynion cymorth dyled ei ddiddymu.

Diwygio Pensiynau a Chynilion
Mae'r gyllideb yn cyhoeddi gofynion i gronfeydd pensiynau cyfraniad diffiniedig i ddatgelu'n gyhoeddus y dadansoddiad o'u dyraniadau ased, yn cynnwys ecwiti yn y Deyrnas Unedig, gan weithio'n agos gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) sy'n rhannu cyfrifoldeb am osod disgwyliadau'r farchnad. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno gofynion tebyg ar gyfer cynlluniau pensiwn llywodraeth leol yn Lloegr a Chymru mor gynnar â mis Ebrill 2024.

Cyhoeddwyd ISA Prydeinig newydd, sy'n galluogi pobl i fuddsoddi hyd at £5,000 yn fwy, yn ddidreth am flwyddyn. Cyhoeddwyd cynllun Bondiau Cynilo Prydeinig hefyd.

# Cyhoeddiadau eraill

Gwasanaethau Cyhoeddus
Cedwir gwariant y sector cyhoeddus i 1% y flwyddyn. Cyhoeddodd y Canghellor gynllun Cynhyrchiant Sector Cyhoeddus, gyda ffocws penodol ar y GIG a phrosesau digideiddio. Cyhoeddodd y Canghellor ymrwymiad i gyllido cynllun cynhyrchiant y GIG yn llawn gyda chyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £3.4bn. Bydd y GIG yn Lloegr hefyd yn derbyn hwb cyllid o £2.5bn am weithredoedd o ddydd i ddydd.

Cyhoeddwyd £800m o gyllid ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cynnwys £230m o gyllid ar gyfer technoleg i wella amserau ymateb yr heddlu.

Clustnodir £17m o gyllid i'r Adran Gwaith a Phensiynau i hybu digideiddo a chyflwyno gwasanaethau ar-lein yn lle prosesau seiliedig ar bapur.

Busnesau
Cafodd y Cynllun Benthyca Adferiad, a ailenwyd fel y Cynllun Gwarant Twf, ei ymestyn yn werth dros £200m. Caiff trothwyon cofrestru ar gyfer TAW eu cynyddu o £85,000 i £95,000 o 1 Ebrill.

Parthau Buddsoddi
Dangosodd y gyllideb fod y rhaglen Parth Buddsoddi yn parhau i gyflenwi buddsoddiad wedi'i dargedu i ardaloedd penodol ar draws y Deyrnas Unedig. Cadarnhaodd y Llywodraeth y caiff y rhaglen parthau buddsoddi ei hymestyn o bump i ddeng mlynedd ar gyfer yr Alban a Chymru. Disgwylir cyhoeddi manylion y parthau buddsoddi yng Nghymru a'r Alban yn ddiweddarach eleni.

Buddsoddiadau Rhanbarthol

Roedd y gyllideb hefyd yn cynnwys buddsoddiad ar gyfer gogledd Cymru

- £1.6m ar gyfer adnewyddu Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug.
- Prynu safle Wylfa yn Ynys Môn, i helpu Llywodraeth y DU i gyflawni ei huchelgais niwclear.
- Buddsoddiad o £100m ar gyfer prosiectau diwylliannol; caiff peth o'r arian hwn ei wario yng Nghonwy.
- Y Rhyl yn derbyn cyllid o'r cynllun rhaglen hirdymor ar gyfer trefi.
- Buddsoddiad o £5m ar gyfer man lansio bwydamaeth yng ngogledd a chanolbarth Cymru.

# Ymateb CHC

Gyda chostau byw yn un o'r prif bryderon ar gyfer aelwydydd, collodd y Canghellor gyfle yn y Datganiad Gwanwyn i gyflwyno gwelliannau y mae eu mawr angen i'n system nawdd cymdeithasol a thrin y costau

ynni uchel sy'n wynebu aelwydydd. Galwn ar Lywodraeth y DU i weithredu i sicrhau fod y system budd-daliadau yn rhoi rhwyd ddiogelwch ddigonol fel y gall tenantiaid tai cymdeithasol Cymru fforddio talu am fwyd a hanfodion sylfaenol eraill. Mae adroddiad Methu Dod â Deupen Llinyn Ynghyd CHC yn amlinellu ein galwadau i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i gymorth a chyngor ariannol. Cyn etholiad cyffredinol y DU, rydym yn gweithio gyda'n chwaer ffederasiynau a rhanddeiliaid i ddynodi ein galwadau allweddol am newid. Byddwn mewn cysylltiad gyda mwy o wybodaeth am sut y medrwch gymryd rhan yn y misoedd nesaf.

*I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:*

*Bethany Howells: Bethany-Howells@chcymru.org.uk*

*Hayley Macnamara: Hayley-Macnamara@chcymru.org.uk*